

## Y Tyllgoed: Llwybrau Diogel yn y Gymuned 2017/18: Carter Place

### Adroddiad Ymgynghori

**Rhif y Project: CO17116**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion uchod rhwng 03/10/2017 a 18/10/2017.

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael os yn bosib â gofidiau lleol.

O'r 28 eiddo yr ymgynghorwyd â hwy, a'r ddau hysbysiad a ddangoswyd ar y safle, cafwyd tri ymateb.

- 1 Gofyn am ragor o wybodaeth
- 2 Anghytuno â'r cynigion

Crynoir y gofidiau a'r sylwadau isod mewn ysgrifen *italig*, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

#### **Argymhelliad**

**O ystyried yr isod, cynigir rhoi'r cynllun ar waith yn unol â'r amlinelliad yng nghynllun yr ymgynghoriad ac i'w fonitro ymhellach i asesu p'un a oes angen y cyfyngiadau parcio hefyd.**

#### Problem gyda lleoliad arafu traffig

*Roedd preswlydd am gadarnhau na fyddai'r mesurau arafu traffig yn effeithio ar unrhyw gais yn y dyfodol am fan croesi i gerbyd.*

Lleolir y mesur arafu traffig a gynigir y tu allan i Rif 12 Carter Place, ac ni fydd yn atal y preswlydd rhag gosod man croesi i gerbyd yn y dyfodol.

#### Problem – bolardiau

*Nododd y preswlydd "rwy'n pryderu nad oes sôn yn y cynllun a gynigir am y bolardiau presennol ar ochr dde Carter Place o'r tu allan i rif 9 hyd at rif 19. Gallai bolardiau ar ddwy ochr y ffordd ei gwneud yn rhy gul i gerbydau mawr, gan gynnwys y rhai sy'n cludo nwyddau i'r ysgol, loriâu casglu sbwriel, cerbydau brys ac ati, os bydd cerbyd yn parcio ar y ffordd gerbydau pan fydd yn ceisio mynd heibio."*

*"Mae fy eiddo ar ochr ddeheuol Carter Place, ac mae'r cynnig yn cynnwys gosod bolard yn union gyferbyn â fy nhramwyfa. Yn unol â bwriad y cynnig, bydd hyn yn gorfodi unrhyw gerbyd sy'n parcio gyferbyn â'm heiddo i barcio'n llwyr ar y ffordd gerbydau ar ran gul o'r ffordd. Byddai cerbyd ar y ffordd gerbydau yn y man hwn yn peri trafferth i mi o ran gyrru am yn ôl i'm tramwyfa i gan y byddai'r gofod i droi yma yn gyfyngedig.*

Caiff y bolardiau eu lleoli yn y droedffordd, ac felly ni fyddant yn culhau'r ffordd ymhellach. Bydd y bolardiau'n atal cerbydau rhag parcio ar y droedffordd a bydd hynny'n cadw'r ffordd gerdded yn ddiogel i gerddwyr, yn enwedig i ddisgyblion ysgol ar eu ffordd i'r ysgol.

Nodwyd y pryderon y gallai cerbydau wedi parcio gyfyngu ar y ffordd i draffig sy'n pasio, neu gyfyngu ar fynediad trigolion i mewn ac allan o'u tramwyfeydd. Tua 4.3m yw lled y ffordd bresennol, sy'n ddigonol i barcio car, ac i gerbyd arall, e.e. lori sbwriel neu fan cludo nwyddau, fynd heibio.

Os yw cerbyd wedi'i barcio mewn ffordd sy'n rhwystro'r Briffordd, mae modd i'r Heddlu ddelio â'r mater gan ddefnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol. Dylid rhoi gwybod am ddigwyddiadau unigol i'r Heddlu ar y rhif dim brys, 101.

Caiff y lleoliad hwn ei fonitro i barhau i asesu p'un a fydd angen unrhyw gyfyngiadau parcio er mwyn atal achosion o barcio mewn modd sy'n rhwystro. Os bydd angen, bydd y rhain yn amodol ar broses Gorchymyn Rheoli Traffig.

#### Problem – problemau gyda pharcio ysgol

Dyweddodd preswylydd *“Rwy'n teimlo bod y cynnig yn andwyol i drigolion Carter Place, sy'n cael eu cosbi am barcio anystyriol a pheryglus aelodau o gymuned yr ysgol. Mae'r rhan helaethaf o barcio mewn modd sy'n rhwystro a welwyd gennyf i gan rieni ac ymwelwyr â'r ysgol, yn enwedig ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Yn ogystal â pharcio ar y droedffordd, mae'r achosion hyn yn cynnwys parcio dwbl, parcio ar dramwyfeydd, ac ar un achlysur, rhiant yn dymchwel wal gardd flaen ein cymydog wrth geisio troi yn y ffordd. Rydw i a fy ngŵr wedi ein cam-drin yn eiriol gan rieni i blant yn yr ysgol wrth geisio parcio ar ein tramwyfa, a phan wnaethom gŵyn i'r ysgol, ni chawsom ymateb a gwnaeth yr ysgol ddim byd.”*

Yn y bôn, mae lleihau tagfeydd ger gatiâu'r ysgol yn allweddol i sicrhau diogelwch disgyblion ac i liniaru effeithiau negyddol ar drigolion lleol y gymuned. Gall camau gorfodi hefyd fod o gymorth, ac os bydd achosion o barcio sy'n rhwystro mynediad at dramwyfeydd eiddo, dylid rhoi gwybod am hyn yn uniongyrchol i Swyddogion Gorfodi Sifil.


Mae Ysgol Gynradd Peter Lea wedi'i lleoli mewn ffordd bengaead. Rydym ni wedi cysylltu â'r ysgol ac argymhell y dylid atgoffa rhieni y dylen nhw, os byddan nhw'n gyrru i'r ysgol, beidio â gyrru ar hyd Carter Place gan fod yn rhaid troi am yn ôl yn y ffordd mewn man lle gall plant fod yn croesi'r ffordd.

Anogir pob ysgol yng Nghaerdydd i ddatblygu Cynlluniau Teithio cadarn a fydd yn eu helpu i fynd i'r afael â phroblemau o ran sut mae eu staff a'u disgyblion yn teithio i'r ysgol, gyda phwyslais ar annog a hyrwyddo Teithio Llesol fel cerdded a beicio. Mae modd i Dîm Addysg Diogelwch ar y Ffyrdde roi cymorth, hyfforddiant a chynghor i'r ysgol.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/ This document is available in English.**

**Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoui i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.**

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch [Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk](mailto:Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk) neu ffoniwch 029 2087 3802 i ofyn am gopi papur o'r adroddiad ymgynghori.



**Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan show.**

Further details about this consultation are available at [www.cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://www.cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail [TransportProjects@cardiff.gov.uk](mailto:TransportProjects@cardiff.gov.uk) or telephone 029 2087 3802 to request a paper copy of the post-consultation report.